**CYFARFOD hybrid Y CYNGOR**, a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 20fed Gorffennaf 2022, gan gychwyn am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker, Mrs M. A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 26. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mrs. J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard a Mrs J. M. Evans.

## 27. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 15fed Mehefin 2022 | - | Rhifau Cofnod | 13-25 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. R. Jam a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | - | 15fed Mehefin 2022 | - | Rhifau Cofnod | 6-9 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd S. Feeney ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

## 28. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at ddigwyddiadau a fynychodd ar ran y Cyngor dros y mis diwethaf, a chyfeiriodd yn benodol at Ardd Synhwyraidd Ysgol Emmanuel, 'Ozzie's 8th Birthday Boogie Bingo' Ymddiriedolaeth Osbourne sy'n cefnogi plant rhieni gyda chanser, Clwb Bowlio Rhodfa'r Dwyrain a gododd £262 gyda raffl a roddwyd i elusennau'r Maer, ac yn olaf derbyniad, perfformiadau a seremoni wobrwyo.

## 29. CYFLWYNIAD: DYNGOR SIR DDINBYCH – DATBLYGIAD CYN SGWAR Y FRENHINES

Croesawodd y Maer Reolwr Prosiect Datblygiad Marchnad y Frenhines, Mr Russell Vaughan i'r cyfarfod a'i wahodd i wneud cyflwyniad i'r aelodau.

Dywedodd Mr Vaughan y canlynol:

- Ar ôl caffael dwy ran o dair o'r safle, roedd mwyafrif llethol yr adeiladau mewn cyflwr mor wael, rhaid oedd eu dymchwel.

- Yr unig adeilad gwreiddiol ar ôl ar y safle oedd Siambrau'r Frenhines, yn ardal gadwraeth canol y dref.

- roedd gwaith adeiladu i gychwyn ym mis Mai, ond roedd adar yn nythu wedi achosi oedi o ddau i dri mis. Unwaith y bydd y cywion wedi gadael, gall gwaith gychwyn.

- Mae byrddau pren solet, gyda graffeg yn dangos drychiadau, wedi eu codi o gwmpas yr ardal i ddiogelu.

- Bydd Wynne Construction yn cychwyn ar Gyfnod 1 ar 15fed Awst, a disgwylir cwblhau'r gwaith ym mis Mehefin 2023.

- Gobeithir y bydd Marchnad y Frenhines ar agor i'r cyhoedd erbyn Gorffennaf 2023.

- Roedd mwy o ddarluniau o'r tu mewn a'r tu allan yn cael ei gwneud.

- byddai'r farchnad yn cynnwys 11 stondin a phum ciosg bwyd poeth, bar a thoiledau ar y llawr gwaelod.

- I fyny'r grisiau ar y mezzanine llawr cyntaf, bydd ardal eistedd ychwanegol, ystafell lendid i newid, swyddfeydd rheoli a lle storio.

- Bydd y neuadd ddigwyddiadau yn lle un llawr hyblyg, gyda mynediad o Sussex Street. Gallai fan hyn letya marchnadoedd achlysurol/tymhorol, gigiau, arddangosfeydd ac ati a bydd yn cynnwys bar.

- Maent yn gweithio i gael gweithredwr ar gyfer y cyfleusterau i reoli ar ran Cyngor Sir Ddinbych, ac yn siarad gydag awdurdodau eraill sydd wedi mynd drwy brosesau tebyg i ddysgu unrhyw wersi a gwneud y dewisiadau gorau. Bydd yn mynd allan i'r farchnad ym mis Awst a gobeithio dyfarnu'r contract ym mis Tachwedd.

- Y dyhead oedd bod y cyfleusterau yn cynnig bwyd a diod o ansawdd gan ddarparwyr Cymreig lleol, ond mae gwerthfawrogiad na fydd hyn efallai yn fasnachol bosibl i ddechrau.

- Y cynllun llwyddiannus agosaf o natur debyg yw Marchnad Crewe. Mae ymweliad wedi ei drefnu ar gyfer cynghorwyr ar 10fed Awst, a bydd Mr Vaughan yn trefnu hyn.

Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau'r aelodau, dywedodd Mr Vaughan:

- Credai y byddai'r seddau a nifer yn sefyll ar gyfer y Neuadd Ddigwyddiadau oddeutu 400 ond byddai'n cadarnhau hyn.

- Bydd arwyddion Marchnad y Frenhines yn cynnwys collnod yn y Saesneg.

- Gallai'r adeilad gael ei newid ychydig os byddai angen gan weithredwr yn y dyfodol.

- Ni fyddai'r hyn a gynigid yn yr adeilad yn cystadlu gyda nac yn dyblygu'r hyn a oedd ar gael yn y dref.

- Roedd yn fwriad o hyd gan CSDd brynu'r safle cyfan i symud ymalen gyda Chyfnodau 2 a 3 a darparu mynediad o'r stryd fawr, ond nid oedd yn sicr y byddai hyn yn bosibl.

- Mae'r adeilad yn cydymffurfio'n llwyr gyda'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

Diolchodd y Maer i Mr Vaughan am ei gyflwyniad cyn iddo adael y cyfarfod.

## 30. <u>AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY</u>

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

| Cyflenwr | Manylion y Cyflenwad | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| BT | Ffôn a Band Eang | 1418 | 276.82 |
| HSBC | Taliadau Banc 17 Ebrill – 16 Mai 2022 | 1416 | 8.00 |
| Gunsmoke Communications | Ffi reoli Mai 2022 | 1420 | 1,600.00 |
| CThEM | Didyniadau PAYE Mai 2022 | 1421 | 3025.81 |
| Cronfa Bensiwn Clwyd | Didyniadau pensiwn ac ariannu diffyg Mai 2022 | 1422 | 4,339.63 |
| Staff Cyngor Tref y Rhyl | Cyflog net staff Cyngor Tref y Rhyl Mai 2022 | 1423 | 7,394.64 |
| Cyngor Sir Ddinbych | AAC Swyddfeydd Dinesig, WRCC, y Rhyl | 1391 | 736.00 |
| Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | Swyddog Apeliadau Rhan-amser – 3 mis Ebrill - Mehefin 2022 | 1419 | 2,750.06 |
| Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | Swyddog Arbed Ynni 22/23 – taliad 1 o 4 | 1435 | 2,000.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| BT | Taliadau rheolaidd | 1434 | 252.20 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£22,383.16** |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Hysbysiad 31 Diwrnod | 42.04 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Money Maker | 6.50 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod (estynnwyd pherwydd y Jiwbilî) | 42.20 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 26.86 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 26.86 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 11.51 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 26.86 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£ 182.83** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiadau.*

## 31. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNEBAU MEHEFIN / GORFFENNAF 2022

Cyfeiriodd y Mader at adroddiad Clerc y Dref a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen yn manylu'r taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

Adroddodd Clerc y Dref ar dri newid i'r atodlen. Y cyntaf bod y Cynghorydd Mrs P. M. Jones wedi dweud yn ddiweddar nad oedd eisiau derbyn y Lwfans Costau a Threuliau. Yr ail oedd y byddai cost planhigion yr haf ychydig yn llai na'r hyn a nodwyd, ar trydydd oedd bod cyfarfod NMWATC wedi ei fynychu gan gynrychiolydd ychwanegol, felly roedd angen tri pryd bwyd yn hytrach na dau.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1438 | Rhyl Steam Preservation Trust | 122.00 | Yswiriant a phlât enw i Billy |
| 1439 | Sioned Graham Cameron | 481.86 | Gwasanaeth Cyfieithu |
| 1440 | Bernie's Miles of Smiles | 250.00 | Peintio wynebau digwyddiad y Rhyl |
| 1441 | Y Cyngh D. King | 137.70 | Treuliau Maer Mai a Mehefin 2022 |
| 1442 | Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych Cyf | 1,323.90 | Derbyniad – arlwyo a diodydd digwyddiad y maer yn 1891 |
| 1443 | Flying Colours | 1,092.00 | Artistiaid ar gyfer digwyddiad Rhyl Frenhinol 4ydd Mehefin 2022 |
| 1444 | Gunsmoke Communications | 16.57 | Hysbysebion Facebook digwyddiad y Rhyl Frenhinol |
| 1445 | The Osbourne Trust | 20.00 | 2 docyn i'r digwyddiad ar 8 Gorffennaf 2022 |
| 1446 | Fool's Paradise Limited | 2,058.00 | Artistiaid ar gyfer digwyddiad Cychwyn yr Haf 30 Gorffennaf 2022 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1447 | Bernie's Miles of Smiles | 250.00 | Peintio wynebau digwyddiad Cychwyn yr Haf 30 Gorffennaf 2022 |
| 1454 | Delwedd Ltd | 51.84 | Cynnydd mewn maint blwch post |
| 1455 | Y Cyngh D. King | 433.33 | Lwfans Maer 22/23 – taliad 1 o 3 |
| 1456 | Y Cyngh D. King | 166.67 | Lwfans Uwch Aelod 22/23 – taliad 1 o 3 |
| 1457 | Y Cyngh J. McAlpine | 133.33 | Lwfans Dirprwy Faer 22/23 – taliad 1 o 3 |
| 1458 | Y Cyngh J. McAlpine | 166.67 | Lwfans Uwch Aelod 22/23 – taliad 1 o 3 |
| 1459 | Y Cyngh A. Walker | 150.00 | Lwfans Costau a Threuliau 22/23 |
| 1460 | Y Cyngh S. Feeney | 150.00 | Lwfans Costau a Threuliau 22/23 |
| 1461 | Pottles Premier Plants Ltd | 10,372.90 | Planhigion yr haf |
| 1462 | NMWATC | 42.00 | Prydau ar gyfer dau gynrychiolydd ar 22 Gorffennaf 2022 |
| 1463 | Y Cyngh E. Chard | 150.00 | Lwfans Costau a Threuliau 22/23 |
| 1464 | Y Cyngh J. Hughes | 150.00 | Lwfans Costau a Threuliau 22/23 |
| 1465 | Y Cyngh P. Jones | 150.00 | Lwfans Costau a Threuliau 22/23 |
| 1466 | Zoom | 150.00 | Adnewyddu Zoom 2022 – Amcan |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£18,018.77** | |

**Taliadau brys:** Awdurdodwyd talebau 1438 i 1442 i'w talu gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol oherwydd canslo cyfarfod 6ed Gorffennaf. Roedd yn annheg i gyflenwyr orfod aros am gael eu talu tan ar ôl cyfarfod mis Gorffennaf 2022 y Cyngor. Cymeradwywyd taleb 1455 gan Glerc y Dref gan fod y digwyddiad cyn cyfarfod nesaf y Cyngor a rhaid oedd talu am y tocynnau ymlaen llaw.

**Taliadau Cerdyn:** Ni wnaed taliadau cerdyn rhwng 9fed Mehefin a 12fed Gorffennaf 2022.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu, a byddai'n cael ei llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

## 32. PERFFORMIAD BUDDSODDI 2022/23 (CHWARTER 1: EBRILL - MEHEFIN 2022)

Ymhellach i gofnod rhif 74 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2022, cyfeiriodd y Maer at gyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn adrodd bod llog bychan o £330.30 wedi ei ennill ar draws pob cyfrif buddsoddi.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 33. CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – ADOLYGU POLISI

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dweud bod rhywbeth anghyffredin wedi digwydd mewn cyfarfod a fynychwyd gan un o gynrychiolwyr y Cyngor Tref. Penderfynodd y grŵp gasglu arian er mwyn codi arian i adnewyddu eitem a oedd wedi torri. Gwnaeth y cynrychiolydd gyfraniad o £20.00 ac

roedd yn derbyn mai cyfraniad personol oedd hwn, ond roedd yn gofyn am esboniad o bolisi'r Cyngor yn hyn o beth.

***PENDERFYNWYD***:

*i) awdurdodi Clerc y Dref i ad-dalu'r cynghorydd yr £20.000 unwaith y byddai ffurflen hawlio wedi ei chyflwyno.*

*ii) os bydd rhywbeth tebyg yn digwydd yn y dyfodol, awdurdodi Clerc y Dref i ad-dalu taliadau hyd at £25.00 fesul, cynrychiolydd, fesul sefydliad.*

**34. EITEM ER GWYBODAETH: STRYD FAWR Y RHYL**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn gohebiaeth gan Mr Mike Jones o Gyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dweud bod rhwystr dros dro wedi ei chodi ar 14eg Gorffennaf 2022 ac wedi dechrau gweithredu ar 18fed Gorffennaf, i ddelio gyda modurwyr yn gyrru a pharcio yn y parth i gerddwyr.

Adroddodd Mr Jones bod BID y Rhyl a'r holl fusnesau ar y Stryd Fawr ac ar Sussex Street wedi eu hysbysu ymlaen llaw gyda llythyrau a ddosbarthwyd â llaw.

Roedd yr aelodau yn falch o weld y rhwystrau yn cael eu gosod, a oedd wedi cael effaith ar unwaith. Roeddynt yn teimlo ychydig o rwystredigaeth ei bod wedi cymryd blwyddyn i wneud hynny, ond yn derbyn bod yr oedi wedi bod oherwydd ceisio defnyddio deunydd rhwystr a fyddai'n gwrthsefyll y problemau tywod a halen yn yr ardal honno.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych yn diolch iddynt am y rhwystr.*

**35. EITEM GAN AELOD: PROSIECT ERASMUS**

Dywedodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James bod y prosiect yn ddolen rhwng ysgolion Prydain ac Ewrop ac yn galluogi i blant ysgolion cynradd deithio dramor i ddatblygu eu sgiliau drwy chwarae dychmygus, gan ddod yn ddysgwyr galluog a dinasyddion moesegol y byd.

Mae cynghorau Cymru yn rhoi £300 i greu'r ddolen, ac yna'n gwneud cais i gael eu hystyried.

Y tro diwethaf i'r Rhyl fod yn llwyddiannus, roedd y plant wedi mynd i Sbaen ac wei cael amser gwych. Eleni, mae'r teithiau i Bortiwgal a Norwy. Mae'r tripiau wedi eu talu amdanynt, ond nid yw'r cit i deithio i Norwy a dyma lle mae angen help. Mae'r cit yn costio £200 fesul plentyn.

Mae 15 o blant o'r Rhyl y tro hwn o glwstwr o ysgolion (Llewelyn, Emmanuel a Christ Church yn y Rhyl ac ysgol yn Rhuddlan)

***PENDERFYNWYD*** *y dylid gwneud cais ffurfiol ar gyfer yr hyn sydd mewn gwirionedd yn gais am ariannu, gyda manylion llawn y prosiect, i gyfarfod nesaf y Pwyllgor CSG ym mis Medi i gael ei ystyried yn llawn.*

**[Datganodd y Cynghorydd A. R. James fuddiant personol yn yr eitem uchod oherwydd ei berthynas bersonol gyda'r Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James, gan aros yn y siambr ond heb gymryd unrhyw ran bellach yn y ddadl na'r pleidleisio ar y mater]**

## 36. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

## 37. DENBIGHSHIRE LEISURE LIMITED (DLL): DIGWYDDIAD YR HAF

Adroddodd Clerc y Dfref yn gyfrinachol ar ebost gan Denbighshire Leisure Limited (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn esbonio na fyddai angen £7,000 yr oedd y cyngor wedi ei glustnodi ar gyfer DLL i ddarparu cyngerdd Arena Ddigwyddiadau eleni, gan na fyddai'r digwyddiad yn mynd rhagddo gan nad oedd gan DLL y capasiti i drefnu chwe cyngerdd masnachol mawr yr haf yma.

Rodd yr aelodau yn siomedig na fydda'r cyngerdd am ddim yn cael ei ddarparu eleni, gan ei fod bob amser yn boblogaidd gyda thrigolion ac ymwelwyr, er eu bod yn deall bod pandemig Covid wedi cael effaith andwyol anferth ar DLL ac felly roedd angen ceisio adfer eu colledion ariannol arwyddocaol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a gwahodd DLL i wneud cais i'r Cyngor Tref y flwyddyn nesaf i gael cyllid ar gyfer y cyngerdd ychwanegol y flwyddyn nesaf.*

**[Datganodd y Cynghorydd P. Prendergast fuddiant personol a rhagfarnus yn yr eitem uchod gan ei fod ar Fwrdd Denbighshire Leisure Limited a gadawodd y siambr, heb gymryd unrhyw an bellach yn y ddadl na'r pleidleisio ar y mater].**

**[Ni ddychwelodd y Cynghorydd Prendergast i'r cyfarfod gan fod ganddo fater personol i fynd iddo]**

## 38. ARDDANGOSFA OLEUADAU 2022

Adroddodd Clerc y Dref yn gyfrinachol bod yr arddangosfa yn cynnwys 48 o unedau / goleuadau a oedd yn wreiddiol ar gynllun prydles tair blynedd, ac yna cawsant eu prynu gennym. Maent oll nawr wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac yn cael ei trwsio wrth i ni fynd ymlaen.

Cafodd 12 eu difrodi yn storm 2021, 6 ohonynt na ellid eu trwsio.

Awgrynmodd Clerc y Dref gyllideb fyrdymor o drwsio ac adleoli o rhwng £7,000 a £10,000 i wneud yr arddangosfa orau bosib, ond roedd angen adolygu'r cynllun cyfan ar gyfer 2023 ac ymlaen gan edrych ar atebion solar a gwyrddach.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r gyllideb a'r cynllun arfaethedig at y dyfodol.*

## 39. COELCERTH A THAN GWYLLT CHYMUNEDOL Y RHYL

Gofynnodd Clerc y Dref am arweiniad yr aelodau ar drafod natur arddangosfa dân gwyllt Clerthe o 2023 ymalen.

Ail-adroddodd yr Aelodau eu cefnogaeth i gael arddangosfeydd tân gwyllt a choelcerth yn y cae gyferbyn â siop Sainsburys fel modd o ddileu’r angen i drigolion gael eu tanau eu hunain, a lleihau nifer yr anafiadau.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn siarad gyda’r trefnwyr ynglŷn â’r posibilrwydd o gynnwys tân gwyllt tawel ar gyfer arddangosfa 2023 mewn ymateb i’r farn bod tân gwyllt traddodiadol yn achosi trallod arwyddocaol i anifeiliaid anwes.*

## 40. EGWYL MIS AWST – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gymeradwyo’r trefniadau ar gyfer dirprwyo pwerau gweithedol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad gyda’r caderyddion priodol yn ystod egwyl mis Awst, fel a ganlyn:

Materion Dinesig - Maer a/neu Dirprwy Faer

Materion Cynllunio - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio

Pwyllgor CSG - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG

Holl Faterion Eraill - Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau’r trefniadau*

## 41. TERFYNU’R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i’r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: …..20.072022………..